# CYSWLLT

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Papur Newydd Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Gaeaf 2025



## ‘EICH MERTHYR, EICH LLAIS’ YMUNWCH Â’R PANEL

Tudalen 2

## MARCHNAD DAN DO NEWYDD BRON WEDI’I CHWBLHAU

Tudalen 3

## PRIF WEINIDOG CYMRU YN YMWELD Â CPI PENTREBACH

Tudalen 5

CBSMerthyrTudful

CBSMerthyrTudful

merthyr.gov.uk

Roedd yr holl wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywirar adeg ei hargraffu: Tachwedd 2025


**Cynhaliwyd ein harolwg Gadewch i ni Siarad: Byw ym Merthyr Tudful rhwng 01 Gorffennaf a 30 Medi a chymerodd bron i 900 o drigolion ran.**




Roedd yr arolwg yn gofyn cwestiynau am yr ardal leol, eich rhyngweithio â'r Cyngor, democratiaeth leol a'ch cynghorwyr lleol.

Mae canlyniadau'r arolwg yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn yr wythnosau nesaf.

Ewch i **merthyr.gov.uk/haveyoursay?lang=cy-GB** am ragor o wybodaeth.




**Ymunwch â'n Panel Dinasyddion Newydd.**
Rydym yn gwahodd trigolion lleol i ymuno â ni a chyfranogi er mwyn gwella bywydau'r rhai sy'n gweithio ac yn byw yn ein Bwrdeistref Sirol.
I gael rhagor o wybodaeth neu i ymuno, anfonwch e-bost at;
corporate.communications@merthyr.gov.uk






## Arweinydd y Cyngor

**Helô bawb,**
**croeso i rifyn y Gaeaf o Contact.**

Rwyf wrth fy modd i gyhoeddi bod Marchnad Dan Do Merthyr bron a bod yn barod i agor ei drysau. Mae'r prosiect wedi bod yn un mor gyffrous, a bydd yn cael effaith ofnadwy o gadarnhaol ar ganol ein tref.
**Darllenwch ragor ar dudalen 3.**


Mae'r Cyngor yn falch iawn o fod wedi agor The Flowers, cartref arloesol sy'n darparu cefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal. Bydd y cartref yn gwneud gwahaniaeth i gymaint o fywydau o fewn ein Bwrdeistref Sirol.
**Darllenwch ragor ar dudalen 5.**

Mae diogelwch cymunedol wastad wedi bod, ac yn parhau i fod, yn flaenoriaeth i ni. **Ar dudalen 7,** darllenwch am y partneriaethau a'r mentrau sy'n cadw ein trigolion yn ddiogel.

I gloi, mae nifer ohonoch wedi gweld ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol fy mod i'n rhannu fideo Y Diweddaraf gan yr Arweinydd, bob dydd Gwener.

Mae'n ffordd wych o gadw mewn cysylltiad â'r newyddion diweddaraf a digwyddiadau lleol.

**Hoffwn fachu'r cyfle i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda ichi gyd!**



**Wrth i Gastell Cyfarthfa ym Merthyr Tudful ddathlu ei ben-blwydd yn 200 oed, mae rheswm arall i ddathlu – mae Gwaith wedi dechrau ar yr Ardal Dreftadaeth eiconig Cyfarthfa yn cael £4.5miliwn i ymgymryd â gwaith cadwraeth brys i helpu i sicrhau ei dyfodol am flynyddoedd lawer mwy i ddod.**

Bydd Llywodraeth Cymru - drwy ei gwasanaeth amgylchedd hanesyddol, Cadw - a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cyfrannu £2.25 miliwn yr un i fynd i'r afael â'r dirywiad i ran hynaf Castell Cyfarthfa yn ogystal â gwarchod pont Pont-y-Cafnau, sydd wedi'i lleoli i'r de o safle ehangach Cyfarthfa - y bont reilffordd haearn hynaf yn y byd.

Mae'r Cyngor yn gweitihio mewn partneriaeth gyda Bydd Sefydliad Cyfarthfa - elusen a sefydlwyd i hyrwyddo datblygiad hirdymor Cyfarthfa, gyda'r nod o adfer yr adeilad, ehangu arddangosfeydd amgueddfeydd ac orielau celf, a datblygu'r parc 160 o erwau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol - i fwrw ymlaen â'r prosiectau hyn.

Nod y cyllid, a gwaith y Cyngor a'r Sefydliad, hefyd yw rhoi hwb i'r nifer o ymwelwyr sy'n dod i'r castell, y gerddi a'r llyn, yn mwynhau'r cyfleusterau chwarae ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau amrywiol a gynigir ar draws y tir.



Marchnad Dan Do
**Merthyr**
Indoor Market



Y Cyng Jamie Scriven
Deilydd Portffolio yr Economi, Adnewyddu, Twristiaeth ac Hamdden

**Mae'r gwaith i adleoli marchnad dan do newydd Merthyr Tudful bron wedi'i gwblhau!**

Mae hen adeilad Wilko wedi'i drawsnewid yn farchnad fodern gydag elfennau traddodiadol, yn dilyn ymgynghoriad â stondinwyr a'r cyhoedd.

Bydd stondinwyr parhaol yn cael eu hategu gan fasnachwyr dros dro i gynnig ystod eang o nwyddau.

Cadwch lygad ar ein gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol am wybodaeth am y dyddiad agoriadol!

**Mae criwiau wedi dechrau gwaith o adfer pont Pont-y-Cafnau, darn rhyfeddol o dreftadaeth ddiwydiannol sydd wedi sefyll fel tystiolaeth o ddyfeisgarwch Cymru ers dros ddwy ganrif.**



**Disgwylir i'r gwaith hyn gael ei gwblhau erbyn Gaeaf 2025.**

Mae'r prosiect uchelgeisiol, a gefnogir gan fuddsoddiad ar y cyd o £4.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru drwy Cadw a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yn nodi dechrau pennod newydd i'r hyn y credir ei bod yn bont reilffordd haearn hynaf y byd sydd wedi goroesi.

Wedi'i hadeiladu ym 1793 gan Gwmni Gwaith Haearn Cyfarthfa , nid pont gyffredin yw hon – mae'n rhyfeddod peirianneg a oedd yn cario dŵr a thramffordd ar draws Afon Taf, gyda dyluniad tair haen dyfeisgar sy'n arddangos ysbryd arloesol chwyldro diwydiannol Cymru.

## DYDDIADAU TYMHORAU YSGOL – 2025 / 2026

### Tymor Hydref 2025

| Tymor yn Dechrau | Hanner Tymor yn Dechrau | Hanner Tymor yn Gorffen | Tymor yn Gorffen |
|---|---|---|---|
| Dydd Llun 1 Medi | Dydd Llun 27 Hydref | Dydd Gwener 31 Hydref | Dydd Gwener 19 Rhagfyr |

### Tymor Gwanwyn 2026

| Tymor yn Dechrau | Hanner Tymor yn Dechrau | Hanner Tymor yn Gorffen | Tymor yn Gorffen |
|---|---|---|---|
| Dydd Llun 5 Ionawr | Dydd Llun 16 Chwefror | Dydd Gwener 20 Chwefror | Dydd Gwener 27 Mawrth |

### Tymor Haf 2026

| Tymor yn Dechrau | Hanner Tymor yn Dechrau | Hanner Tymor yn Gorffen | Tymor yn Gorffen |
|---|---|---|---|
| Dydd Llun 13 Ebrill | Dydd Llun 25 Mai | Dydd Gwener 29 Mai | Dydd Llun 20 Gorffennaf |

**Roedd 2025 yn garreg filltir enfawr: pen-blwydd Castell Cyfarthfa yn 200 oed sydd yn dirnod annwyl ym Merthyr Tudful!**



**Y Cyng Gareth Lewis**
Deilydd Portffolio Addysg, Diwylliant a’r Iaith Gymraeg

Mae dathliad Cyfarthfa200 yn parhau drwy’r gaeaf ac rydym yn cychwyn tymor yr Ŵyl gydagamserlen ysblennydd o ddigwyddiadau.

Teimlwch hud Cyfarthfa y Nadolig hwn, darganfyddwch sled llawn gweithgareddau i bob oedran.

Peidiwch â cholli allan! I gael rhestr lawn o ddyddiadau, amseroedd a gwybodaeth archebu, edrychwch ar **visitmerthyr.co.uk**

Mae Cyfarthfa200 wedi’i gydlynu a’i gyflwyno gan Sefydliad Cyfarthfa a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac wedi cael ei ariannu’n rhannol gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

**cyfarthfafoundation.wales**

**Roedd eleni yn nodi 10 mlynedd ers rhaglen cyfoethogi gwyliau ysgol Llywodraeth Cymru; Bwyd a Hwyl.**

Gwahoddwyd plant o 169 o ysgolion a gymerodd ran ledled Cymru i fod yn greadigol a dylunio arwyddlun coffa.

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi mai enillydd y gystadleuaeth wych hon yw Troy Powell, disgybl talentog yn Ysgol Gynradd Goetre ym Merthyr Tudful!

















**Y Cyng Louise Minett-Vokes**
Deilydd Portffolio Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Chyfranogiad yr Ifanc

## Ymwelodd Prif Weinidog Cymru, Eluned Morgan AS â'r Ganolfan Plant Integredig (CPI)

Roedd yr ymweliad yn foment arwyddocaol i Ferthyr Tudful, gan ddathlu ehangu gwasanaethau gofal plant Dechrau'n Deg yn llawn a hefyd taith ryfeddol 20 mlynedd y CPI o gefnogi darparwyr gofal plant a theuluoedd lleol.

Mewn datblygiad nodedig, mae'r Fwrdeistref Sirol wedi cyflawni 100% o ofal plant Dechrau'n Deg, gan ddarparu mynediad am ddim i bob plentyn 2-3 oed ac mae pob un o'r 24 darparwr gofal plant wedi'u cymeradwyo i dderbyn plant Dechrau'n Deg.

**Mae'r Cyngor yn falch o gyhoeddi agoriad The Flowers; cyfleuster preswyl arloesol sydd wedi'i gynllunio i ddarparu cymorth cynhwysfawr i blant sy'n derbyn gofal.**

Roedd Dawn Bowden AS, Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol Cymru yn bresennol. Mae The Flowers yn cynrychioli buddsoddiad gwerth £3.6 miliwn o Gronfa Tai â Gofal Llywodraeth Cymru a chefnogaeth Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg.

Bydd y cyfleuster o'r radd flaenaf yn darparu cartref maeth i hyd at 12 o bobl ifanc, gan gynnig gwasanaethau hanfodol gan gynnwys llety tymor hir, asesiadau brys a chymorth arbenigol i'r rhai sydd ag a nghenion ychwanegol.



## Plant gofalwyr maeth

**Mae rhai teuluoedd yn petruso i faethu oherwydd nad ydyn nhw'n siŵr o'r effaith y gallai ei chael ar eu plant eu hunain. Fodd bynnag, mae plant ein gofalwyr maeth ym Merthyr yn dweud wrthym sut mae wedi agor eu calonnau a gwneud iddyn nhw deimlo'n falch.**



### Laila, Rhys, Freya

"Rydyn ni'n meddwl bod maethu'n beth da i fod yn rhan ohono. Mae'n gwneud i ni deimlo'n falch ein bod ni'n gallu gwneud gwahaniaeth i fywydau plant eraill. Rydyn ni wrth ein bodd yn cadw mewn cysylltiad â nhw a'u gweld nhw'n tyfu... maen nhw fel brodyr a chwiorydd bach i ni."



### Harry

"Roeddwn i'n falch o ddweud wrth fy nosbarth beth yw teulu maeth a'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig cael mwy o oedolion i helpu cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Rwy'n caru maethu a chwrdd â llawer o ffrindiau newydd."

Darllenwch fwy ar ein gwefan: Maethu Cymru Merthyr Tudful
Read more on our website, search: Foster Wales Merthyr Tydfil

## Gan Ddymuno Nadolig Gwyrddach

Wrth i dymor yr ŵyl agosáu, mae'r Cyngor yn lansio ei **Ymgyrch Ailgylchu Nadolig** flynyddol i helpu trigolion i leihau gwastraff ac ailgylchu mwy.

### Beth allwch chi ei ailgylchu

Gellir ailgylchu llawer o eitemau Nadolig cyffredin, gan helpu i leihau gwastraff a cefnogi economi gylchol:

- Bocsys cardbord o anrhegion wedi eu danfon (eu fflatio i arbed lle)
- Poteli gwydr a jariau (rinsiwch yn gyntaf)
- Tybiau a hambyrddau plastig (gwiriwch am symbolau ailgylchu)
- Tuniau bwyd a chaniau diod (glân a sych)
- Gwastraff bwyd – Gall pob bwyd wedi'i goginio, gan gynnwys parion, esgyrn, bagiau te, a chrafiadau oddi ar blât, fynd yn eich cadi gwastraff bwyd.

### Peidiwch â rhoi'r canlynol yn eich ailgylchu:

- Papur lapio wedi'i orchuddio â ffoil neu lwch hud
- Cracers Nadolig gyda theganau plastig
- Tinsel, baubles, ac addurniadau artiffisial
- Pecynnu polystyren a ffilm blastig

**Dylai'r eitemau hyn fynd yn eich bin sbwriel cyffredinol neu gael eu hailddefnyddio lle bo'n bosibl.**

## Awgrymiadau ar gyfer Nadolig Diwastraff

Lleihewch wastraff a gwneud eich dathliadau yn fwy cynaliadwy:

- Ailddefnyddio bagiau a blychau anrhegion
- Compostio gwastraff bwyd
- Rhewi bwyd sydd dros ben
- Rhoi anrhegion nad sydd ei angen arnoch i eraill
- Osgoi plastigau untro



**Y Cyng David Jones**
Dirprwy Arweinydd ac Deilydd Portffolio Cymunedau a Newid Hinsawdd

*"Gyda'n gilydd, gallwn wneud y Nadolig hwn nid yn unig yn llawen, ond yn amgylcheddol gyfrifol.*

*Gadewch i ni gadw Merthyr yn lân, yn wyrdd, ac yn Nadoligaidd!"*

Mae'r Gwasanaeth Archebu Ailgylchu Coed Nadolig yn agor ar 8 Rhagfyr 2025 ac yn cau 1 Ionawr 2026.

Mae'r casgliadau'n dechrau o 7 Ionawr. Am fwy o wybodaeth ac i archebu ewch i;

**merthyr.gov.uk 01685 725000**




**Cyrhaeddodd Partneriaeth Bioamrywiaeth Merthyr Tudful restr fer dau brosiect (Gwlyptiroedd yr Inclein a Taf Bargoed) yng ngwobrau Cynaliadwyedd a Bioamrywiaeth a gynhaliwyd yn yr Excel yn Llundain.**

Wedi'u lansio yn 2023, mae'r gwobrau'n arddangos yr arloesedd a'r mentrau pwysicaf ledled sector tirlunio y DU; o ddylunio i adeiladu, cyflenwi / gweithgynhyrchu cynnyrch a'r bobl sy'n hwyluso hyn.









**Bydd ein Canolfannau Ailgylchu Cartref ar gau Dydd Nadolig, Dydd San Steffan a Dydd Calan.**

Oriau Agor y Gaeaf yw 9.00am - 4.30pm

Mae CAC Dowlais ar gau bob dydd Mawrth.
Mae CAC Aber-fan ar gau bob dydd Mercher.



**Y Cyng Declan Sammon**
Deilydd Portffolio Trawsnewid, Llywodraethiant a Phartneriaeth Gymdeithasol

**Mae diogelwch cymunedol yn flaenoriaeth i'r Cyngor.**

Un o'n blaenoriaethau fel Cyngor yw gwneud Merthyr Tudful yn lle mwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld â hi a diolch i waith partneriaeth yr Heddlu a Chymdeithasau Tai, rydym yn cymryd camau i wireddu hyn.

Lanswiydsawl menter yn ystod y misoedd diwethaf, felly roeddem am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynghylch y gwaith gwych sy'n digwydd.




**Ym mis Gorffennaf lansiwyd Operation Clutch** i godi ymwybyddiaeth a gofyn am gefnogaeth gan aelodau'r gymuned i rannu gwybodaeth am gerbydau anghyfreithlon.

Rydym yn falch o ddweud bod hynny wedi arwain at gymryd camau yn erbyn unigolion nad oedd ganddynt yswiriant na thrwydded. Cafodd nifer o feiciau eu hatafaelu, nifer o feiciau wedi'u dwyn eu hadfer a gwnaethpwyd nifer o arestiadau.

Gyda'n gilydd, rydym yn anfon neges glir: ni fydd beicio oddi ar y ffordd an-ghyfreithlon a gwrthgymdeithasol yn cael ei oddef ym Merthyr Tudful. Nid yw'r beiciau hyn yn gyfreithlon i'w defnyddio ar ffyrdd cyhoeddus neu fannau cyhoeddus oni bai eu bod yn gwbl gyfreithlon, wedi'u trethu a'u hyswirio a bod gan feiciwr drwydded gywir.

Yr haf hwn, lansiodd yr heddlu gynllun **Merthyr Tudful Gyda'n Gilydd** i frwydro yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghanol y Dref. Rydym eisoes yn gweld canlyniadau cadarnhaol. Gyda mwy o batrolau a chamerâu teledu cylch cyfyng ychwanegol, mae'r ymgyrch hon hyd yn hyn wedi arwain at dros 100 o arestiadau, dros 100 o atgyfeiriadau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gorchymyn ymddygiad troseddol a nifer o atafaeliadau cerbydau.

Merthyr Tudful Gyda'n Gilydd
Merthyr Tydfil Together



Ym mis Hydref 2025, **nodwyd dau Barth Taclo'r Taclau ym Merthyr Tudful**; un yn Gurnos ac un yng Nghanol y Dref. Nodwyd y rhain trwy ymgysylltu â thrigolion mewn cyfarfodydd PACT a gwrando ar yr heriau y maent yn eu hwynebu yn yr ardaloedd hyn.

Rydym yn deall bod pobl eisiau ffordd gyflym a dibynadwy o adrodd am droseddau a bydd y parthau hyn yn cynnig hynny iddynt. Edrychwn ymlaen at ddysgu yn y misoedd nesaf am fanteision y parthau hyn i drigolion.

Dywedodd y Cynghorydd Declan Sammon: *"Mae gan drigolion hawl i deimlo'n ddiogel, p'un a ydyn nhw gartref neu allan yn y gymuned ac rydym yn gweithio'n galed i wneud hyn yn realiti. Mae gweithio gyda phartneriaid yn allweddol. Rydym yn gobeithio gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, cadarnhaol a byddwn yn rhannu cynnydd ein taith gyda chi."*

**Mae Taclo'r Taclau hefyd ar gael i bawb, ledled Merthyr Tudful a gellir adrodd am droseddau'n ddienw.**

**0800 555 111** **crimestoppers-uk.org**



## Dweud Eich Dweud

Mae eich barn yn bwysig i ni. Cwblhewch ein harolygon a'n hymgynghoriadau drwy ymweld â:
**merthyr.gov.uk/DweudEichDweud**

**Rydyn ni yma i helpu.**
**Oeddech chi'n gwybod...?**

Mae'n Canolfan Gyswllt yn ymdrin â dros **87,000** o ryngweithiadau bob blwyddyn – i gyd i'ch cadw mewn cysylltiad a'ch cefnogi!

Bob mis, dyna:

- 560 wyneb yn wyneb yn y dderbynfa
- 6,569 o alwadau
- 142 o negeseuon e-bost

P'un a ydych chi'n awyddus i gael gwybod am wasanaethau'r Cyngor, rhoi gwybod am broblem, gwneud taliad neu drefnu apwyntiad, mae'n tîm yma i'ch helpu

**01685 725 000**
**customerinfo@merthyr.gov.uk**



**Gwiriwch eich cymhwysedd.**

Gyda misoedd y gaeaf ar ein gwarthau, rydym yn annog trigolion i wirio eu cymhwysedd i dderbyn cymorth ychwanegol â Chredydau Pensiwn, y Dreth Gyngor a Budd-daliadau Tai.

Mae gwybodaeth ar gael ar ein gwefan felly am ragor o wybodaeth ewch i;
**merthyr.gov.uk/check-your-eligibility**



**Y Cyng Anna Williams-Price**
Deilydd Portffolio Cynaliadwyedd Ariannol, Asedau a Masnachol

## Ymgynghoriad ar y Gyllideb 2026/27

Diolch i bawb a gyfranogodd yn Ymgynghoriad, blynyddol y Gyllideb.

Mae eich adborth yn amhrisiadwy ac yn ein cynorthwyo i osod cyllideb gytbwys. Gellir gweld canlyniadau cychwynnol yr ymgynghoriad yn:
**merthyr.gov.uk/haveyoursay?lang=cy-GB**

**Sut mae Cyllideb y Cyngor yn cael ei gwario**
Mae'r Cyngor yn darparu cannoedd o wasanaethau i breswylwyr; rhai ohonynt, mae'n debyg nad ydych hyd yn oed yn ymwybodol ohonynt; **merthyr.gov.uk/fideo-cyllideb**

## CYMRYD RHAN GYDA'CH CYNGOR LLEOL

Wyddech chi, gallwch ofyn cwestiwn, ychwanegu eitem at flaengynllun gwaith, neu fynychu cyfarfod cyhoeddus yn bersonol?



I ddarganfod mwy, ewch i:

**merthyr.gov.uk/council/have-your-say/the-councils-participation-strategy/?lang=cy-GB**